

Esgyniad a gogoneddiad

*“Am hynny, tradyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw.”
(adn. 9)*

Beth am ddarlenn Philipiaid 2:1–11 ac yna myfyrio

Gwirionedd arall y mae'n angenrheidiol i Gristnogion ei gredu yw'r hyn a elwir 'gogoneddiad Iesu'. Dethlir y digwyddiad hwn ar Ddydd Iau Dyrchafael er bod rhai Cristnogion yn amharod i sôn am y digwyddiad ar ei ben ei hun oherwydd mae'r diwrnod yn cofnodi rhywbeth mwy na Iesu Grist yn codi o'r ddaear. Rhaid i ni nodi'r gwahaniaeth rhwng esgyniad Iesu a gogoneddiad Iesu. Ei esgyniad oedd ei ddyrchafu o'r ddaear yng ngŵydd ei ddisgyblion tra bod ei ogoneddiad yn cyfeirio at ei osod ar yr orsedd fel Arglwydd a Gwaredwr.

Mae llawer o Gristnogion yn gofyn pam fod Iesu wedi ei ddyrchafu i'r nefoedd mewn ffordd fel hyn, tra medrai fod wedi diflannu fel ag y gwnaeth ar adegau eraill ar ôl ei atgyfodiad. A oedd angen yr olygfa yma? Y rheswm dros ddyrchafiad Iesu gerbron y disgyblion oedd dangos iddynt fod ei ymadawiad yn derfynol. Yr oedd wedi ymddangos ac wedi diflannu dro ar ôl tro yn ystod y deugain diwrnod, ond bellach roedd amser ffarfwel wedi cyrraedd, a hynny nes iddo ddychwelyd ato mewn gogoniant yn ei ailddyfodiad.

Wedi'r esgyniad, mae'r disgyblion yn dychwelyd i Jerwsalem, nid i ddisgwyl amdano i wneud ymddangosiad arall, ond yn hytrach i ddisgwyl iddo i roi iddyn nhw'r un grym ag yr oedd yn ei nerthu ef – grym yr Ysbryd Glân. Mae un esboniwr yn cyfeirio at y ffaith fod genedigaeth Iesu a'i farwolaeth yn ganlyniad ffaith ei fod wedi rhoi ei hunan, ond mae ei atgyfodiad a'i ogoneddiad ar yr orsedd yn weithredoedd y Tad. Mae'r un a ddywedodd ei fod wedi ei fodloni yn y Mab yn ei fedydd bellach wedi ei fodloni yn llwyr wrth i'w Fab gymryd ei sedd ar yr orsedd eto, bellach nid fel Duw yn unig ond fel Gwaredwr hefyd.

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Actau 2:32–33; 5:30–32; 1 Pedr 3:18–22

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth ddigwyddodd wedi i'r Iesu esgyn i'r nefoedd?
2. Pwy sydd wedi ei ddarostwng i Grist?

Gweddi

Arglwydd Iesu Grist, fy Ngwaredwr a'm Prynwr, mae fy nghalon yn llawenhau oherwydd dy fod ti ar dy orsedd. Trwy hynny, medraf gael y sicrwydd y byddaf un diwrnod yn ymuno â thi. Arglwydd, mae fy nghalon yn llawenhau yn fy nisgwylad. Amen.